



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Adran Materion Gwledig

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

Y Tîm Lles Anifeiliaid Fferm
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Hill House
Caerfyrddin
SA31 3BS

Ffôn: 01267 225300

E-bost: livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk

LLES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO – NODIADAU CYFARWYDDYD

RHEOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG A GORCHYMYN LLES ANIFEILIAID (CLUDO) CYMRU 2007

CANLLAWIAU I WEITHREDWYR A CHAPTEINIAID LLONGAU DA BYW A PHOBL SY’N CLUDO CEFFYLAU AC ANIFEILIAID FFERM

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Canllawiau hyn wedi'u paratoi i helpu pawb i weithredu yn yr un modd Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig (y Rheoliad) fel y mae'n berthnasol i lwythi o geffylau ac anifeiliaid fferm sy'n cael eu cludo ar longau da byw. Gorfodir y Rheoliad a darpariaethau cysylltiedig eraill yn y DU trwy: Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006; Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007; Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (yr Alban) 2007; a Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Gogledd Iwerddon) 2007.

1.2 Awdurdodau Lleol (Safonau Masnach neu Swyddogion Iechyd Anifeiliaid gan amlaf) ac Asiantaeth y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliad.

1.3 Mae'r Rheoliad yn uniongyrchol berthnasol i bob un o Aelod-wladwriaethau'r UE, ac fe ddaeth i rym ar 5 Ionawr 2007.

1.4 Rhoddir Canllawiau Technegol ar adeiladu, gweithredu a defnyddio llongau sy'n cludo llwythi o anifeiliaid byw (esgyn a disgyn) er mwyn ategu gofynion perthnasol mewn un man a helpu i egluro barn Defra ar sut y dylid gorfodi'r Rheoliad a'i roi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, dim ond llys barn fydd yn gallu rhoi dyfarniad terfynol mewn unrhyw anghydfod rhwng gorfodwyr a chlodwyr.

1.5 Dim ond i lwythi masnachol o geffylau ac anifeiliaid fferm y mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol, ond gall yr egwyddorion cyffredinol fod yn ddefnyddiol wrth gludo rhywogaethau eraill ar long da byw.

1.6 Weithiau, er eglurder, mae'r gofynion a amlinellir yma ac yn Atodiadau 1, 2 a 3 yn grynodedb o'r geiriau cyfreithiol yn y Rheoliad. Nid yw pob darpariaeth wedi'i chynnwys. Dylid darllen testun y Rheoliad bob amser.

2 Gweithredu'r Rheoliad

2.1 Mae'r Rheoliad yn uniongyrchol berthnasol i bob un o Aelod-wladwriaethau'r UE, ac fe ddaeth i rym ar 5 Ionawr 2007.

2.2 Dim ond "mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd" (Erthygl 1.5) (cludiant masnachol) y mae'r Rheoliad yn berthnasol i gludiant. Gall yr enghreifftiau yn Rhan 1 eich helpu i bennu ystyr "gweithgarwch economaidd".

2.3 Caiff y gwaith o gludo anifeiliaid y tu allan i gwmpas y Rheoliad ei reoli gan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 2006. Gyda llwythi o'r fath ar long da byw, dylid dilyn egwyddorion cyffredinol y Canllawiau hyn, fel sy'n briodol ar gyfer y rhywogaethau, er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i ddiogelu lles yr anifeiliaid hyn wrth eu cludo.

3 Nodiadau

3.1 Mae'r Rheoliad yn diffinio 'Dull Cludo' fel cerbydau ffordd neu reilffordd, llongau da byw ac awyrennau a ddefnyddir i gludo anifeiliaid (Erthygl 2 (n)).

3.2 Diffinnir 'llong da byw' (Erthygl 2 (l)) fel llong a ddefnyddir neu y bwriedir ei defnyddio i gludo ceffylau domestig (ceffylau a merlod ac ati) neu wartheg, defaid, geifr neu foch (anifeiliaid fferm) – ac eithrio llong gyrru mewn ac allan a llong sy'n cludo anifeiliaid mewn cynwysyddion symudol.

3.3 Mae'n rhaid i bob 'Dull Cludo', gan gynnwys llongau da byw wrth gludo anifeiliaid, gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol y Rheoliad, fel sy'n berthnasol, yn Erthygl 3 ac Atodiad I Penodau II a III.

3.4 Mae'n rhaid i longau da byw hefyd gydymffurfio â darpariaethau arbennig y Rheoliad yn Atodiad I Pennod IV. Os yw'r anifeiliaid yn cael eu cludo ar daith hir (gweler 3.9), bydd rhaid cydymffurfio â darpariaethau ychwanegol Atodiad I Pennod VI hefyd.

3.5 Amlinellir gofynion adeiladu llong da byw yn Atodiad I, ac amlinellir y gofynion gweithredu yn Atodiad 2.

3.6 Mae'n rhaid i longau da byw gael eu harchwilio a'u cymeradwyo cyn eu defnyddio, a'u harchwilio cyn pob llwyth fel y disgrifir yn Atodiad 3.

3.7 Er mwyn diogelu'n llawn lles yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo ar long da byw, dylid dilyn canllawiau a rhagofalon ychwanegol (yn seiliedig ar brofiad ymarferol) sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiadau i'r canllawiau hyn.

3.8 Diffinnir 'Taith' (Erthygl 2 (j)) fel y broses o gludo'r anifeiliaid o'r man cychwyn i ben y daith. Mae hyn yn cynnwys cludo'r anifeiliaid i'r porthladd ac oddi yno, yr amser y mae'r anifeiliaid yn ei dreulio yno, a'r siwrnai ei hun.

3.9 Diffinnir 'Taith Hir' (Erthygl 2 (m)) fel un sy'n para mwy nag 8 awr ar ôl symud (h.y. llwytho yn y man cychwyn) yr anifail cyntaf.

3.10 Mae'r Rheoliad yn tybio bod anifeiliaid sy'n cael eu cludo ar long da byw yn cael eu cludo ar daith hir. Felly, mae'r canllawiau hyn yn tybio bod rhaid i'r llong da byw gydymffurfio â'r 'Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Teithiau Hir' (Atodiad I Pennod VI).

4 Cyfrifoldebau

4.1 Fel sy'n briodol i'w rôl, mae gan bob un sy'n cyfrannu at gludiant masnachol anifeiliaid gyfrifoldeb (Erthygl 3) dros gynllunio, trefnu a chyflawni'r daith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad a diogelu lles yr anifeiliaid, gan sicrhau nad ydynt yn dioddef unrhyw anaf neu boen diangen. O ran cludo anifeiliaid ar long da byw, hwyrach y bydd cyfrifoldeb o'r fath yn cael ei ddisgrifio'n eang, ond nid yn gyfyngedig, fel a ganlyn:-

4.2 Mae'n rhaid i gludwyr anifeiliaid (h.y. y rheini sy'n trefnu i anifeiliaid gael eu cludo o un man i'r llall) gynllunio'r daith a sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith rhag ofn i'r daith gael ei hoedi. Gall enghreifftiau gynnwys oedi wrth llwytho'r llong neu adael y porthladd am sawl rheswm, gan gynnwys tywydd gwael. Mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon bod gan y llong Dystysgrif Cymeradwyaeth a'i bod yn addas i gludo'r nifer a'r math o anifeiliaid y bwriedir eu cludo, ac y gellir cydymffurfio â gofynion dŵr, bwyd a seibiant ar gyfer yr anifeiliaid.

4.3 Mae'n rhaid i berchennog/siartwr/gweithredwr y llong sicrhau bod y llong wedi cael ei harchwilio ac wedi derbyn tystysgrif cymeradwyaeth, a bod yr awdurdod cymwys priodol wedi cael gwybod am unrhyw newid sylweddol i gyfarpar a gosodiadau'r da byw. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod digon o le ar y llong a bod y cyfleusterau'n addas ar gyfer cludo'r nifer a'r math o anifeiliaid y mae'r cludwr yn bwriadu eu cludo, bod y Capten yn gymwys a bod ganddo gyfarwyddiadau penodol ar gyfer cludo anifeiliaid.

4.4 Mae'n rhaid i gapten y llong a swyddogion o dan ei awdurdod sicrhau:

- bod gofod, gosodiadau a chyfarpar da byw'r llong (gan gynnwys cyfarpar llwytho/dadllwytho) yn ddigonol ac yn addas i gludo'r anifeiliaid ac mewn cyflwr da;
- bod gan y llong ddigon o ddŵr, bwyd a sarn ar gyfer yr anifeiliaid a hyd y daith;
- bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio a'u bod yn cael eu cadw ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau priodol, gyda digon o le i symud a digon o le uwch eu pennau;
- bod yr anifeiliaid yn cael eu hawyru'n ddigonol ac yn cael eu diogelu rhag y tywydd a'r môr;

- bod rhagolygon y tywydd ar gyfer y daith yn golygu nad yw'r anifeiliaid yn debygol o ddiodeff anaf neu boen diangen;
- Os bydd y daith yn cael ei hoedi oherwydd rhagolygon tywydd gwael (neu am unrhyw reswm arall), dylid rhoi gwybod i'r cludwr neu'r asiant cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn golygu y gellir cadw'r anifeiliaid yn y safle y daethant ohono, neu fan addas arall, gan osgoi llwytho a dadlwytho'r anifeiliaid yn ddiangen a'r straen y gallai hyn ei achosi.
- bod digon o gynorthwywyr cymwys ac wedi'u hyfforddi (a all fod yn aelodau'r criw) yn teithio ar y llong, eu bod yn gallu mynd at yr anifeiliaid pan fo angen a gofalu amdanynt ar adegau priodol.

5 Awdurdodi cludwyr

5.1 Mae'n rhaid i bob cludwr, a ddiffinnir fel 'unrhyw unigolyn naturiol neu gyfreithlon sy'n cludo anifeiliaid ar ei gyfer ef ei hun neu ar ran trydydd parti' (Erthygl 2(x)) gael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Cymwys (Erthygl 6.1) lle bo'r daith yn hwy na 65 cilometr (tua 35 morfilltir) (Erthygl 6.7).

5.2 Mae awdurdodiadau'n ddilys am hyd at 5 mlynedd, ac yn berthnasol naill ai ar gyfer teithiau hyd at 8 awr ('Math 1') (Erthygl 10) neu deithiau hir ('Math 2') (Erthygl 11). Gweler adran 3 yn rhan 1 o'r canllawiau hyn.

5.3 O ran cludo mewn llong da byw (tybir ei fod yn rhan o daith hir), bydd angen awdurdodiad 'Math 2' ar berchennog/gweithredwr/siartwr y llong os yw'r daith yn hwy na 35 morfilltir, a bod y daith a'r anifeiliaid a gludir o fewn cwmpas y Rheoliad.

6 Cynorthwywyr anifeiliaid – cymhwysedd a hyfforddiant

6.1 Mae'n rhaid i gludwyr (gweler 5.1) sicrhau bod cynorthwydd yn mynd gyda'r anifeiliaid (Erthygl 6.6). Yr unig eithriad yw pan fo'r anifeiliaid yn cael eu cadw mewn rhai cynwysyddion (Erthygl 6.6(a)).

6.2 Mae'n rhaid i gludwyr sicrhau bod pobl sy'n gyfrifol am anifeiliaid wrth eu cludo wedi derbyn hyfforddiant mewn rhannau perthnasol o Atodiadau I a II y Rheoliad (Erthygl 6.4). Gellir hyfforddi mewn unrhyw ddull addas.

6.3 Mae'n rhaid i gapten, swyddogion a chriw llong da byw fod wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chludo anifeiliaid fel sy'n briodol i'w rôl. Nid oes angen unrhyw dystysgrif cymhwysedd, ond gall tystiolaeth o hyfforddiant fodloni'r cludwr bod Erthygl 6 wedi'i chyflawni.

6.4 Mae'n rhaid sicrhau bod digon o gynorthwywyr (a all fod yn aelodau'r criw) ar y llong ar gyfer nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Mae'n rhaid iddynt fod wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â gofalu am yr anifeiliaid fel sy'n briodol i'w rôl. Nid oes angen unrhyw dystysgrif

cymhwysedd, ond gall tystiolaeth o hyfforddiant fodloni'r cludwr bod Erthygl 6 wedi'i chyflawni.

6.5 Gweler adran 4 yn Rhan 1 o'r canllawiau hyn am gyngor manwl ar gymhwysedd a hyfforddiant.

ADEILADU – GOFYNION A CHANLLAWIAU

1 Cyffredinol

1.1 Mae'n rhaid cynllunio, adeiladu a chynnal a chadw'r llong a'i gosodiadau da byw er mwyn osgoi anaf a phoen a sicrhau diogelwch yr anifeiliaid (Pennod II, 1.1(a)).

1.2 Mae'n rhaid sicrhau nad oes unrhyw osodiadau, bylchau, pethau sy'n ymestyn allan nac ymylon miniog yn y deciau, y llociau, y tramwyfeydd na'r rampiau llwytho a allai anafu'r anifeiliaid.

1.3 Mae'n rhaid i'r anifeiliaid gael eu diogelu rhag effeithiau tywydd gwael a'r môr, a thymheredd eithafol (Pennod II, 1.1(b).) Mae'n rhaid i bob lloc neu stâl lle cedwir da byw fod â gorchudd sylweddol uwchben (Pennod IV, 1.1). Lle bo angen, dylai ochrau llociau a stalau fod yn gaeedig er mwyn darparu digon o ddiogelwch rhag y tywydd a'r môr. Dylid sicrhau bod unrhyw ddec lle mae gwres eithafol yn debygol o gael ei drosglwyddo i adran yr anifeiliaid yn cael ei inswleiddio fel sy'n briodol.

1.4 Mae'n rhaid i bob cynhwysydd da byw fod o faint addas ar gyfer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo er mwyn sicrhau eu bod yn gallu sefyll yn naturiol gyda digon o le uwch eu pennau i'r aer gylchredeg yn iawn. Dylid sicrhau bod tramwyfeydd, drysau a rampiau'n ddigon uchel fel y gall anifail symud trwyddynt heb anafu (Pennod II, 1.2).

1.5 Mae'n rhaid i gryfder rheiliau'r llociau a deciau fod yn briodol i faint, pwysau a nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Mae'r Rheoliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifon cryfder gael eu dilysu yn ystod y gwaith o adeiladu neu weddnewid y llong ar gyfer da byw gan gymdeithas ddosbarthu a gymeradwyr gan yr awdurdod cymwys (Pennod IV, Adran 1, 1). Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yw'r awdurdod cymwys yn y DU, ac mae'n dirprwyo swyddogaethau technegol i'r Lloyds Register of Shipping, American Bureau of Shipping, Bureau Veritas, Germanischer Lloyd, Det Norske Veritas, Registro Italiano Navale a Nippon Kaiji Kyokai.

1.6 Mae canllawiau defnyddiol ar gynllunio, adeiladu a chryfder deciau a gosodiadau llongau da byw ar gael yn Rhan 43 yr Australian Maritime Safety Authority Marine Orders, 'Cargo & Cargo Handling – Livestock'. Mae'r rheolau manwl hyn, sy'n cael eu diwygio o bryd i'w gilydd, wedi cael eu datblygu i reoleiddio safonau ar gyfer llongau da byw sy'n cael eu llwytho yn Awstralia.

2 Rampiau ar gyfer llwytho a dadlwytho anifeiliaid

2.1 Mae'n rhaid i'r llong fod â ramp da byw ar gyfer llwytho a dadlwytho anifeiliaid ac, yn ôl yr angen, dylid gosod ramp neu rampiau addas ar gyfer symud anifeiliaid o un dec i'r llall.

2.2 Mae'n rhaid i bob ramp da byw, waeth a yw'n sefydlog neu'n symudol, gydymffurfio â'r meini prawf canlynol (Pennod III, 1.4(a)).

- Uchafswm ongl y ramp wrth ei ddefnyddio: 20 gradd – ar gyfer cheffylau, moch a lloi (gwartheg iau na 6 mis oed); 26 gradd 34 munud – ar gyfer defaid a gwartheg (ac eithrio lloi);
- Dylid gosod estyll troed, neu fesurau gwrth-lithro tebyg, ar y ramp os yw'r goledd yn fwy na 10 gradd. Argymhellir na ddylai'r estyll troed fod yn llai na 50 mm o uchder a 25 mm o led, ac y dylai fod rhwng 25 cm a 30 cm rhyngddynt.

2.3 Mae'n rhaid gosod rhwystrau ochr ar rampiau (diogelwch ochrol) i atal anifeiliaid rhag dianc (Pennod III, 1.3(a).) Argymhellir y dylai'r rhwystrau hyn fod yn solet, ac o leiaf 1.25 metr o uchder ar gyfer gwartheg a cheffylau a 0.75 metr ar gyfer defaid, moch a geifr.

2.4 Argymhellir na ddylai lled y ramp fod yn llai na 0.90 metr nac yn fwy na 1.10 metr ar gyfer gwartheg a cheffylau, nac yn llai na 0.55 metr ar gyfer defaid, moch a geifr.

2.5 Argymhellir y dylid gosod ramp ochr, yn ôl yr angen, ar ramp i anifeiliaid i helpu stocmyn i symud anifeiliaid ar y ramp.

2.6 Dylid darparu rhwystrau o gryfder, cynllun ac uchder priodol, a all fod yn symudol, i sicrhau bod anifeiliaid yn gallu esgyn a disgyn o ramp yn ddiogel – ar y cei ac ar y llong.

2.7 Dylid gosod neu ddarparu estyll troed, neu fesurau gwrth-lithro effeithiol eraill, ar y dec neu'r llawr ar ddiwedd pob ramp.

2.8 Os caiff anifeiliaid eu symud i'r llong neu oddi arni trwy blatfform codi, dylai'r platfform hwn fod â rhwystrau diogelwch i atal anifeiliaid rhag disgyn neu ddianc (Pennod III, 1.4(b)).

3 Deciau, draeniad a lloriau gwrth-lithro

3.1 Mae'n rhaid i wyneb llawr pob lloc, stâl a thramwyfa ddarparu digon o afael i'r anifeiliaid i'w hatal rhag lithro (Pennod II, 1.1(g)).

3.2 Mae'n rhaid i ddeciau da byw (a'r system ddraenio) fod wedi'u cynllunio i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail yn gollwng ar ben anifeiliaid sy'n cael eu cludo oddi tano (Pennod II, 1.1(h)).

3.3 Mae'n rhaid darparu system ddraenio sy'n cynnwys sianeli a phibellau digonol i ddraenio hylif o bob dec a lloc da byw. Mae'n rhaid i'r system gysylltu â ffynhonnau neu danciau fel y gellir gollwng carthffosiaeth (dros yr ochr) trwy ddefnyddio pypiau neu ollyngwyr. Mae'n rhaid sicrhau bod yna system bwmpio arall ar gael (a all fod yn symudol) i'w defnyddio os bydd y prif system yn methu (Pennod IV, Adran 1, 5).

4 Cynllunio ac adeiladu deciau, llociau a stalau, a rhaniadau

4.1 Mae'n rhaid i'r gwaith o gynllunio ac adeiladu gofod yr anifeiliaid ystyried sawl ffactor er mwyn sicrhau diogelwch yr anifeiliaid (Pennod II, 1.1).

4.2 Mae'n rhaid sicrhau bod y cynorthwydd yn gallu cyrraedd pob dec da byw bob amser (Pennod II, 1.1(f)). Dylai hyn fod yn wir mewn unrhyw dywydd.

4.3 Mae'n rhaid sicrhau bod tramwyfa wrth ochr pob lloc neu stâl a'i bod yn ddigon llydan i'r cynorthwydd allu cyrraedd y lloc er mwyn ei harchwilio, darparu dŵr a bwyd a gofalu am yr anifeiliaid. Dylai'r dramwyfa hon fod o leiaf 0.6 metr o led. Ond, lle bo angen symud gwartheg neu geffylau trwy'r dramwyfa, argymhellir y dylai fod o leiaf 0.9 metr o led.

4.4 Mae'n rhaid i bob tramwyfa a ddefnyddir i symud anifeiliaid fod â llawr gwrth-lithro (Pennod II, 1.1(h)).

4.5 Mae'n rhaid sicrhau bod y cynorthwydd yn gallu cyrraedd pob lloc neu stâl da byw er mwyn gofalu am yr anifeiliaid.

4.6 Os yn bosibl, dylai llociau a stalau fod yn rhai petryal 4 ochr. Mae'n rhaid i'r llawr fod â nodweddion gwrth-lithro (Pennod II, 1.1(g)).

4.7 Mae'n rhaid i raniadau a rheiliau fod yn ddigon cryf i ddal pwysau'r anifeiliaid, ac mae'n rhaid i'r gosodiadau fod wedi'u cynllunio fel eu bod yn gyflym a hawdd i'w gosod (Pennod II, 1.4). Mae'n rhaid i gyfrifon cryfder gael eu dilysu yn ystod y gwaith o adeiladu neu weddnewid y llong ar gyfer da byw gan gymdeithas ddsbarthu a gymeradwyir gan yr awdurdod cymwys (Pennod IV, Adran 1, 1).

4.8 Gall ochrau llociau a stalau fod yn rheiliau agored neu'n adeiladwaith solet, a dylid eu gosod ar onglau sgwâr, neu mor agos â phosibl i hynny, i'r dec da byw. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae ochr y llong yn cael ei defnyddio fel ffin lloc neu stâl, ni ddylai'r ongl fod yn fwy na 15 gradd i'r perpendicwlar.

4.9 Mae'n rhaid i'r gofod rhwng y rheiliau fod yn briodol ar gyfer y rhywogaeth a maint yr anifail sy'n cael ei gludo. Yn arbennig, dylai sicrhau na all anifeiliaid ddianc ac na all eu pennau na rhannau eraill o'u cyrff gael eu dal.

4.10 Hwyrach y bydd angen diogelu anifeiliaid ifanc rhag drafftiau oer wrth eu cludo mewn llociau â rheiliau.

4.11 Argymhellir y dylid lleoli stalau ar gyfer ceffylau a merlod fel bod yr anifeiliaid yn sefyll yn wynebu ar draws y llong, ac y dylid eu hadeiladu gyda ffiniau solet.

4.12 Hwyrach y bydd ochrau solet yn angenrheidiol rhag i wahanol grwpiau o foch ymosod ar ei gilydd.

5 Dimensiynau llociau a stalau ar gyfer anifeiliaid fferm

5.1 Mae'n rhaid i ddimensiynau llociau a stalau fod yn briodol ar gyfer rhywogaeth, maint a nifer yr anifeiliaid a fydd yn cael eu cludo ynddynt. Nid yw'r Rheoliad yn nodi dimensiynau ar gyfer llociau a stalau, ond rhoddir y dimensiynau canlynol fel canllaw:

- Hyd 0.9 metr – 5.0 metr (pen blaen a thu ôl y llong);
- Lled 2.0 metr – 3.0 metr (port i starbord y llong);
- Ni ddylai'r arwynebedd fod yn fwy na 15 metr².

5.2 Dylai lloc neu stâl fod â ffiniau digon uchel ar gyfer maint a rhywogaeth yr anifail sy'n cael ei gludo, a heb fod yn llai nag: 1.2 metr ar gyfer gwartheg llawn-dwf; 0.9 metr ar gyfer lloi ifanc, defaid a moch.

5.3 Mae'n rhaid i unrhyw loc neu stâl fod yn ddigon uchel fel y gall yr anifeiliaid sefyll yn naturiol, a chyda digon o le uwch eu pennau i'r aer lifo'n naturiol. Dyma isafswm y lle y dylid ei ddarparu uwch eu pennau:

- 2.15 metr ar gyfer gwartheg llawn-dwf;
- 1.50 metr ar gyfer lloi ifanc;
- 1.25 metr ar gyfer defaid, moch a geifr.

5.4 Wrth gludo geifr, hwyrach y bydd angen rhoi 'to' ar y lloc neu'r stâl i atal yr anifeiliaid rhag dianc.

6 Dimensiynau stalau a 'bocsys rhydd' ar gyfer ceffylau a merlod.

6.1 Mae'n rhaid i bob ceffyl neu ferlen (ac eithrio caseg gyda'i hebol) gael eu cludo mewn stâl unigol neu 'focs rhydd' o faint priodol (Pennod IV, 1.6). Mae'n rhaid i'r anifail allu sefyll yn naturiol, a chyda digon o le uwch ei ben i'r aer lifo'n naturiol. Dylai'r ceffyl neu'r ferlen naill ai gael eu cadw mewn stâl fel na all droi, neu mewn 'bocs rhydd' gyda digon o le i droi a gorwedd.

6.2 Rhoddir y dimensiynau canlynol ar gyfer stâl ceffyl fel canllaw yn unig:

- hyd 2.1 metr - 2.5 metr (rheilen y frest i'r cefn);
- lled 0.7 metr - 0.8 metr;
- uchder yn y stâl 2,15 metr;
- uchder rheilen y frest 1.15 metr;
- uchder y rhaniadau ochr 1.20 metr;
- uchder y rhaniad ôl 1.50 metr.

6 Awyru

6.1 Mae sicrhau bod adrannau anifeiliaid yn cael eu hawyru'n ddigonol wrth lwytho, yn ystod y daith ac wrth ddadlwytho'n hanfodol. Mae'n rhaid i'r awyru a ddarperir ar unrhyw adeg fod yn ddigonol i sicrhau bod amgylchedd derbyniol ar gyfer yr anifeiliaid yn cael ei gynnal ym mhob adran da byw (Pennod II, 1.1(e) a Phennod III, 2.6).

6.2 Mae'n rhaid i ddeciau caeedig a rhannol gaeedig gynnwys system awyru fecanyddol (gorfodol) (Pennod IV, adran 1, 2).

6.3 Mae'n rhaid i'r system awyru allu newid aer adran gwbl gaeedig o leiaf:

- 40 gwaith yr awr ar gyfer adran ag uchder o 2.30 metr neu lai;
- 30 gwaith yr awr ar gyfer adran sy'n uwch na 2.30 metr.

6.4 Mae'n rhaid i'r system awyru allu newid aer adran rhannol gaeedig o leiaf:

- 30 gwaith yr awr ar gyfer adran ag uchder o 2.30 metr neu lai;
- 22.5 gwaith yr awr ar gyfer adran sy'n uwch na 2.30 metr.

Noder: Nid oes diffiniad o 'rhannol gaeedig' yn y Rheoliad, ond tybir ei fod yn golygu adran lle mae awyru naturiol yn cael ei gyfyngu'n sylweddol gan adeiladwaith y llong.

6.5 Dylai fod mwy nag un ffan ym mhob adran da byw gaeedig neu rannol gaeedig. Argymhellir y dylai pob ffan allu gwneud dau beth, sef darparu a gwacáu aer fel sy'n briodol.

6.6 Mae'n rhaid i'r system awyru fod wedi'i chynllunio i sicrhau bod awyru digonol yn llifo trwy bob rhan o bob adran da byw, a bod aer 'brwnt' yn cael ei waredu, heb adael pocedi 'aer marw'. Hwyrach y bydd angen dosbarthu aer o'r pwyntiau cyflenwi trwy ddefnyddio pibau a thyllau ar adegau priodol.

6.7 Dylid sicrhau bod cyfarpar trwsio ffaniau awyru yn achos methiant mecanyddol neu drydanol yn cael eu cadw ar y llong.

6.8 Gall cyfuniad o dymheredd uchel a lleithder cymharol uchel mewn adran da byw achosi straen, neu farwolaeth hyd yn oed. Fel canllaw, mae amodau'n debygol o fod yn ddiogel tan i'r cyfuniadau canlynol gael eu cyrraedd.

- Tymheredd (° C) 24 26 28 31 35
- Lleithder (% Rh) 100 75 50 25 0

6.9 Argymhellir y dylid darparu o leiaf un thermomedr, fel sy'n briodol ar gyfer maint yr adran da byw, a'i ddarllen yn rheolaidd.

7 Goleuadau a gosodiadau trydanol

7.1 Dylid sicrhau bod digon o olau, boed yn naturiol neu'n artiffisial, yn y man llwytho, ar rampiau ac yn y tramwyfeydd i ddiwallu anghenion yr anifeiliaid a'r cynorthwyr (Pennod III, 1.6).

7.2 Dylid sicrhau bod digon o olau yn y deciau da byw er mwyn archwilio a gofalu am yr anifeiliaid (Pennod II, 1.1(i) a Phennod IV, adran 1 pwynt 6), ac i ddiwallu anghenion yr anifeiliaid.

7.3 Mae'n rhaid i'r goleuadau ar y llong fod yn rhan o'r gosodiadau parhaol ac yn gysylltiedig â'r brif ffynhonnell bŵer, ond dylai goleuadau argyfwng a symudol fod ar gael hefyd.

7.4 Mae'n rhaid i wifrau a gosodiadau trydanol gael eu lleoli neu eu diogelu er mwyn osgoi anafu'r anifeiliaid.

7.5 Dim ond yn ôl yr angen y mae angen darparu goleuadau mewn ardaloedd da byw, a hynny fel y gall yr anifeiliaid yfed, bwyta a symud o gwmpas ac fel y gall y cynorthwyr eu harchwilio a gofalu amdanynt.

8 Systemau a chyfarpar bwydo a dŵr ffres

8.1 Mae'n rhaid sicrhau bod system cyflenwi dŵr ffres i bob dec da byw a bod dŵr yfed yn cael ei ddosbarthu'n barhaus i bob lloc neu stâl (Pennod III, 2.7 a Phennod IV, adran 1 pwynt 4).

8.2 Mae'n rhaid darparu digon o gafnau yfed symudol neu fasnau dŵr sefydlog fel y gall pob anifail gael dŵr ffres bob amser. Mae'n rhaid i gafnau neu fasnau fod yn addas ar gyfer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo ac wedi'u gosod ar uchder priodol.

8.3 Cyn dechrau ar y daith, mae'n rhaid sicrhau bod digon o ddŵr yfed neu ddull distyllu digonol ar y llong i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion dŵr ffres a amlinellir yn Atodiad 2, paragraff 5.2.

8.4 Mae'n rhaid sicrhau bod dull amgen o ddarparu dŵr i'r anifeiliaid rhag ofn i'r brif system bwmpio fethu.

8.5 Mae'n rhaid sicrhau bod dull addas o ddarparu bwyd i'r anifeiliaid sy'n briodol i'r rhywogaeth ar waith, gan gynnwys offer bwydo digonol neu gyfarpar

arall yn ôl yr angen. Mae'n rhaid i gyfarpar o'r fath fod wedi'i gynllunio i fod yn sefydlog, ar uchder priodol, fel na fydd yn dymchwel adeg ei ddefnyddio (Pennod VI, 1.4 ac 1.5). Mae hi'n dderbyniol 'bwydo ar y llawr' lle bo hynny'n briodol, cyn belled â bod cyn lleied â phosibl o halogi yn sgil wrin a thail.

8.6 Cyn dechrau ar y daith, mae'n rhaid sicrhau bod digon o fwyd sy'n briodol ar gyfer y rhywogaeth ar y llong i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion bwyd a amlinellir yn Atodiad 2, paragraff 5.2. Mae'n rhaid i gyflenwadau bwyd gael eu diogelu rhag y tywydd a rhag eu halogi (Pennod VI, 1.3).

9 Systemau monitro, rheoli a larwm

9.1 Mae'n rhaid i'r bont (olwyndy) fod wedi'i chyfarparu fel y gellir rheoli a monitro systemau hanfodol mewn perthynas ag awyru, cyflenwi dŵr ffres (a'i gynhyrchu os oes angen), draenio a goleuo. Hefyd, mae'n rhaid i'r systemau hyn gynnwys larymau sy'n dangos unrhyw fethiant gan wylwr y bont (Pennod IV, adran 1 pwynt 8).

10 Ffynonellau pŵer

10.1 Mae'n rhaid i'r llong gynnwys prif ffynhonell bŵer sy'n gallu darparu pŵer parhaus i'r systemau da byw, o ran awyru, cyflenwi dŵr, draenio a goleuo yn ystod gweithrediad arferol y llong. Hefyd, yn achos methiant y brif ffynhonell bŵer, mae'n rhaid i ffynhonnell bŵer eilaidd fod ar waith sy'n gallu gweithredu'r systemau hyn yn barhaus am dri diwrnod (Pennod IV, adran 1 pwynt 9).

11 Diffodd tân

11.1 Mae'n rhaid i bob ardal da byw gynnwys system a chyfarpar diffodd tân yn unol â safonau'r Confensiwn Rhyngwladol cyfredol ar Ddiogelu Bywyd Môr (SOLAS) (Pennod IV, adran 1 pwynt 7).

12 Glanhau a diheintio

12.1 Mae'n rhaid gallu glanhau a diheintio'n effeithiol y rhannau hynny o'r llong a'i chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer anifeiliaid (Pennod II, 1.1(c)).

GWEITHREDIAD – GOFYNION A CHANLLAWIAU

1 Cyffredinol

1.1 Mae'n rhaid i'r llong a'i gosodiadau da byw gael eu gweithredu mewn ffordd sy'n osgoi anaf a dioddefaint ac yn sicrhau diogelwch yr anifeiliaid (Pennod II, 1.1(a)).

1.2 Mae'n rhaid i'r anifeiliaid fod yn ffit ar gyfer y daith dan sylw (Pennod I, 1). Gweler adran 2.3 yn Rhan 1 o'r canllawiau hyn am gyngor manwl ar ffitrwydd anifeiliaid i gael eu cludo.

2 Amodau tywydd a thymheredd yr amgylchedd

2.1 Ni ddylid cludo anifeiliaid pan fo effeithiau amodau'r tywydd a ragwelir ar gyfer y daith yn debygol o achosi anaf neu ddioddefaint iddynt (Pennod II, 1.1(b)).

2.2 Bydd angen i gaptin y llong ystyried llawer o ffactorau wrth benderfynu a yw amodau'r tywydd yn iawn ar gyfer y daith.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhywogaeth, maint ac oedran yr anifeiliaid;
- nodweddion morio'r llong, gan gynnwys a yw'n sefydlog ai peidio;
- cyfeiriad a chryfder y gwynt a chyflwr y môr;
- cwrs y llong a pha gamau y gellir eu cymryd i liniaru effeithiau tywydd gwael yn ystod y daith.

2.3 Mae tymheredd yr amgylchedd hefyd yn ffactor sydd angen ei ystyried oherwydd gall hyn arwain at amodau sy'n anaddas i rai anifeiliaid.

2.4 Os yw'r gwaith o lwytho anifeiliaid yn debygol o gael ei oedi oherwydd rhagolygon tywydd gwael (neu am unrhyw reswm arall), dylid rhoi gwybod i'r cludwr neu'r asiant cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn golygu y gellir cadw'r anifeiliaid yn y man y deuant ohono, neu fan addas arall, gan osgoi llwytho a dadlwytho'r anifeiliaid yn ddiangen a'r straen y gallai hyn ei achosi.

3 Caniatáu'r gofod gofynnol (dwysedd stocio)

3.1 Captern y llong a'r swyddog llwytho sy'n gyfrifol am stocio'r anifeiliaid yn gywir yn ôl rhywogaeth ac oedran. Dylid trefnu a chytuno ar y cynllun llwytho gyda'r cludwr cyn dechrau llwytho'r anifeiliaid.

3.2 Amlinellir faint o ofod sy'n ofynnol ar gyfer ceffylau a merlod, gwartheg, defaid a geifr yn y Rheoliad (Pennod VII), a chânt eu hatgynhyrchu yn y tablau isod.

	Ceffylau	Gwartheg
Pwysau byw – cilogramau	m ² yr anifail	m ² yr anifail
200 – 300	0.900 – 1.175	0.8100 – 1.0575
300 - 400	1.175 – 1.450	1.0575 – 1.3050
400 - 500	1.450 – 1.725	1.3050 – 1.5525
500 - 600	1.725 – 2.000	1.5525 – 1.8000
600 -700	2.000 – 2.250	1.8000 – 2.0250

Noder: Dylid rhoi 10% yn fwy o le i wartheg cyflo na'r hyn a nodir uchod.

Defaid a geifr		Moch	
Pwysau byw - cilogramau	M ² yr anifail	Pwysau byw - cilogramau	M ² yr anifail
20 – 30	0.240 – 0.265	10 neu lai	0.20
30 – 40	0.265 – 0.290	20	0.28
40 – 50	0.290 – 0.315	45	0.37
50 – 60	0.315 – 0.340	70	0.60
60 – 70	0.340 – 0.390	100	0.85
		140	0.95
		180	1.10
		270	1.50

3.3 Nid yw stocio anifeiliaid yn unol â'r ffigurau gofod a bennir o reidrwydd yn arwain at y dwysedd llwytho mwyaf priodol ar gyfer yr anifeiliaid a'r daith dan sylw. Hwyrach y bydd angen addasu'r ffigurau hyn ar sail yr amgylchiadau, profiad a'r hyn y bydd rhywun yn sylwi arno ar y pryd.

4 Amserau'r daith a pha mor aml i roi dŵr, bwyd a gorffwys

4.1 Mae amserau'r daith a'r cyfnodau rhwng rhoi dŵr, bwyd a gorffwys i anifeiliaid yn gymhleth, ac yn amrywio yn ôl rhywogaeth ac oedran yr anifeiliaid. Cludwr yr anifeiliaid sy'n gyfrifol am sicrhau y gellir cydymffurfio â'r gofynion hyn.

4.2 Capten y llong sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael dŵr a bwyd o fewn y cyfnodau gofynnol.

4.3 Gweler adran 2.5 o brif ddogfen y canllawiau.

5 Darparu, cyflenwi a storio dŵr, bwyd a sam

5.1 Cyn gadael y porthladd lle mae'r anifeiliaid yn cael eu llwytho, mae'n rhaid sicrhau bod gan y llong ddigon o ddŵr ffres (neu ddull o'i ddistyllu) a digon o fwyd sy'n briodol ar gyfer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo, a chyflenwadau wrth gefn rhag ofn y bydd yr anifeiliaid ar y llong yn hwy na'r disgwyl (Pennod IV, Adran 2).

5.2 Mae'r cyfansymiau dyddiol gofynnol ar gyfer pob anifail yn y tabl isod.

	Dŵr	Bwyd (% o bwysau byw)
Ceffylau	45 litr	Naill ai 2% porthiant neu 1.6% pelenni dwysfwyd
Gwartheg	45 litr	Naill ai 2% porthiant neu 1.6% pelenni dwysfwyd
Defaid	4 litr	Naill ai 2% porthiant neu 1.8% pelenni dwysfwyd
Moch	10 litr	3% pelenni dwysfwyd

Nodiadau

- Yn hytrach na'r cyfaint a nodir, gall dŵr (ar gyfer pob rhywogaeth) fod yn gyfwerth â 10% o'r pwysau byw i ystyried maint yr anifeiliaid (1 cilogram = 1 litr).
- Gall bwyd fod yn gymysgedd cyfwerth o borthiant a phelenni.
- Mae'n rhaid i anifeiliaid fod yn gyfarwydd â'r math o fwyd a ddarperir.

5.3 Mae'n rhaid defnyddio sarn neu ddeunydd arall sy'n addas ar gyfer yr anifeiliaid yn y llociau a'r stalau i sicrhau cysur yr anifeiliaid ac i amsugno wrin ac ysgarthion (Pennod VI, 1.2). Dylid newid sarn sydd wedi'i faeddu yn ôl yr angen.

5.4 Dylid hefyd darparu cyflenwadau wrth gefn o ddŵr a bwyd a sarn. Dylai'r rhain fod yn 25% o'r cyfanswm sydd ei angen ar gyfer yr anifeiliaid yn ystod y daith, neu gyflenwad 3 diwrnod ychwanegol – pa un bynnag yw'r mwyaf.

5.5 Mae'n rhaid storio cyflenwadau dŵr, bwyd a sarn fel na fyddant yn cael eu halogi ac fel na fydd eu hansawdd yn dirywio.

6 Triniaeth mewn argyfwng neu ladd anifeiliaid sâl ac anifeiliaid wedi'u hanafu

6.1 Mae hi'n ofynnol i anifeiliaid sy'n mynd yn sâl neu'n cael eu hanafu wrth eu cludo gael eu gwahanu o'r anifeiliaid eraill a derbyn triniaeth cymorth cyntaf cyn gynted â phosibl, cael triniaeth filfeddygol briodol ac, os oes angen, cael eu lladd mewn ffordd nad yw'n achosi unrhyw ddioddefaint diangen iddynt (Pennod I, 4).

6.2 Dylid ystyried amgylchiadau pob achos, gan gynnwys cyflwr a rhywogaeth yr anifail a phryd y bydd y llong yn cyrraedd y porthladd, wrth bennu pa gamau sydd angen eu cymryd.

6.3 Argymhellir y dylai fod gan y capten weithdrefn ar gyfer cael cyngor gan filfeddyg, a'i fod yn ymgynghori â'r gyrrwr neu gynorthwydd, ynglŷn â'r camau priodol i'w cymryd.

6.4 Mae dulliau lladd trugarog yn amrywio o un rhywogaeth i'r llall.

6.5 Os bydd rheoliadau diogelwch yn caniatáu hynny, dylai fod gan long sy'n cludo anifeiliaid ar daith a fydd yn para mwy na 3 awr ddull addas o ladd mewn argyfwng ar y llong (Pennod II, 1.6). Dylid sicrhau bod y dull hwn ar gael i unigolyn sy'n gymwys i'w ddefnyddio yn ôl yr angen.

7 Cyfyngiadau

7.1 Ni ddylid rhoi mwy na 4 ceffyl heb eu dofi gyda'i gilydd mewn lloc neu stâl (Pennod III,2.4).

7.2 Ni ddylid cludo ceffylau heb eu dofi ar daith hir (Pennod VI, 1.9).

7.3 Ni ddylid cludo'r canlynol ar daith hir oni bai eu bod gyda'u mam (Pennod VI, 1.9):

- Ceffylau a merlod heb eu cofrestru sy'n 4 mis oed neu iau;
- Lloi 14 diwrnod oed neu iau;
- Moch 10 cilogram neu lai.

7.4 Mae'n rhaid i geffylau, ac eithrio caseg gyda'i hebol, fod mewn stalau unigol wrth eu cludo ar daith hir (Pennod VI, 1.6).

7.5 Ni ddylid storio nwyddau lle gallant achosi anaf, trallod neu ddiodefaint i'r anifeiliaid (Pennod III, 1.5).

ARCHWILIO A CHYMERADWYO LLONG DA BYW

1 Mae angen archwilio llongau da byw a chyflwyno tystysgrif gymeradwyo cyn y cânt eu defnyddio i gludo anifeiliaid fferm neu geffylau a merlod os bydd y daith yn hwy na 10 morfilltir (Erthygl 7.2 ac Erthygl 19).

2 Mae'n rhaid cyflwyno cais am archwiliad a thystysgrif gymeradwyo i Awdurdod Cymwys (neu gorff dynodedig) yr Aelod-wladwriaeth lle caiff y llong ei gweithredu. Os caiff y llong ei gweithredu o fwy nag un Aelod-wladwriaeth, gellir cyflwyno'r cais i unrhyw un (ond dim ond un) o'r rhain.

3 Bydd 'tystysgrif gymeradwyo', a gyhoeddir gan yr Aelod-wladwriaeth ar ôl archwilio'r llong, yn ddilys am hyd at 5 mlynedd – ond bydd yn dod yn annilys os bydd y llong da byw yn cael ei haddasu neu ei hailosod mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio ar les yr anifeiliaid.

4 Ym Mhrydain, Asiantaeth y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol sy'n gyfrifol am archwilio'r llong cyn ei defnyddio a chyhoeddi'r dystysgrif gymeradwyo. Yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig sy'n gyfrifol am hyn (DARD).

5 Dylai'r llong da byw hefyd gael ei harchwilio gan yr Awdurdod Cymwys a cyn i'r anifeiliaid gael eu llwytho bob tro, ac adeg eu dadlwytho (Erthygl 20).

6 Mae archwiliadau cymeradwyo ac archwiliadau cyn llwytho'n amrywio fel a ganlyn:

- Archwiliad Cymeradwyo (Erthygl 19) – Adeiladu a chyfarpar yn cydymffurfio ag Atodiad I, Pennod IV, Adran 1;
- Archwiliad Cyn Llwytho – Gallu a chyfarpar da byw y llong yn addas ar gyfer y nifer a'r math o anifeiliaid a fydd yn cael eu llwytho, a'r adrannau a chyfarpar da byw mewn cyflwr da ac yn gweithio'n dda (Erthygl 20.1).

7 Adeg y llwytho a'r dadlwytho, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cymwys archwilio'r llong i gadarnhau (a) bod yr anifeiliaid yn ddigon iach i barhau â'r daith, (b) bod gweithdrefnau llwytho/dadlwytho'n cydymffurfio ag Atodiad I Pennod III, a (c) bod trefniadau dŵr a bwyd yn cydymffurfio ag Atodiad I Pennod IV Adran 2 (Erthygl 20.2).

8 Hefyd, gall yr Awdurdod Cymwys (Swyddogion Gorfodi) benderfynu cynnal gwiriadau priodol ar unrhyw adeg yn ystod taith hir (Erthygl 15.1 ac

Erthygl 21(d)) er mwyn dilysu bod y daith a'r dull o gludo yn cydymffurfio â'r Rheoliad.